

CYNGOR SIR Y FFLINT

DEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDD A PHLISMONA RHAN 4, ADRAN 59

GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS [MAES PARCIO CANOLFAN SIOPA BWCLE 2017]

Gellir dyfynnu'r Gorchymyn hwn fel Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus [maes parcio Canolfan Siopa Bwcle 2017].

Mae Cyngor Sir y Fflint ("y Cyngor") yn gwneud y Gorchymyn hwn wedi'i fodloni ar sail resymol bod y gweithgareddau a nodwyd ym mharagraff 1 y lleoliad man cyhoeddus a ddisgrifir ym mharagraff 2 o'r Gorchymyn hwn wedi cael neu'n debygol o gael effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rhai yn yr ardal, neu mae'n debygol y bydd gweithgareddau yn cael eu cynnal o fewn yr ardal honno ac yn cael effaith o'r fath.

Mae'r Cyngor hefyd yn fodlon bod effaith, neu effaith bosibl y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod o natur barhaus, ac mae'r gweithgareddau hyn yn afresymol ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodwyd gan yr hysbysiad a'i fod yn yr holl amgylchiadau yn addas i wneud y Gorchymyn hwn at ddiben lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn lle cyhoeddus.

Daw'r Gorchymyn hwn i rym am hanner nos **24 Tachwedd 2017** am gyfnod o 3 blynedd, oni bai y bydd yn cael ei ymestyn gan orchmynion pellach o dan bwerau statudol y Cyngor.

Mae'r Cyngor trwy hyn yn ei gwneud yn ofynnol trwy'r Gorchymyn hwn bod:


1. Unrhyw un sy'n gyrru cerbyd modur o fewn y lleoliad a ddisgrifir ym mharagraff 2 trwy hyn yn cael ei wahardd, o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym, i ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol:
 - (a) Refio injan (gan achosi niwsans)
 - (b) Cyflymu sydyn a chyflymu ailadroddus (gan achosi niwsans)
 - (c) Rasio
 - (d) Chwarae cerddoriaeth mewn cerbyd modur (gan achosi niwsans cyhoeddus)
 - (e) Canu corn (gan achosi niwsans cyhoeddus)
2. Y tir y mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddo, y mae'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 ("y Ddeddf") yn berthnasol iddo, yw'r tir hwnnw yn ardal Sir y Fflint sydd -
 - (a) wedi'i amlinellu a'i ddangos mewn coch ar y map sy'n ffurfio rhan o'r Gorchymyn hwn ac sy'n
 - (b) cael ei ddisgrifio'n gryno yn yr Atodlen gyda'r Hysbysiad hwn.

3. Mae'n drosedd o dan Adran 67 o'r Ddeddf i unrhyw un heb esgus rhesymol i gymryd rhan mewn gweithgaredd a waharddwyd gan y Gorchymyn hwn. Bydd unrhyw un sy'n torri'r Gorchymyn hwn yn atebol am gollfarn ddiannod i fwyafswm cosb o ddirwy lefel 3 neu i Rybudd Cosb Benodedig hyd at £75.00.

Executed as a Deed by affixing)
THE COMMON SEAL of)
FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL)
In the presence of:-)
This day of 2017)


CHAIR




LEGAL SERVICES MANAGER/
CHIEF OFFICER (GOVERNANCE)

ATODLEN

Man cyhoeddus a ffurfiwyd gan y maes parcio ac ardal i gerddwyr o fewn Canolfan Siopa Bwcle yn Sir y Fflint



The map is reproduced from Ordnance Survey data and is used here under license. All other material is the copyright of the respective owners. No part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system, or transmitted in any form or by any means, electronic, mechanical, photocopying, recording, or by any information storage or retrieval system, without the prior written permission of the copyright owner.

Planning & Environment
 Flintshire County Council
 County Hall, Mold
 Flintshire, CH7 6NF
 Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:750 @ A4
 OS Map SJ 2763
 Produced 13/02/2017



Handwritten signature and initials

HERIO DILYSRWYDD Y GORCHMYNION

Gall unrhyw un â diddordeb wneud cais i'r Uchel Lys i gwestiynu dilysrwydd -

- a) Y Gorchymyn hwn, neu
- b) Amrywiad o'r Gorchymyn hwn yn y dyfodol

Mae "Unigolyn â Diddordeb" yn golygu unigolyn sy'n byw yn yr ardal gyfyngedig neu sy'n gweithio neu'n ymweld â'r ardal honno yn rheolaidd.

Gall unrhyw un â diddordeb wneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos o'r dyddiad y gwnaed y Gorchymyn hwn, ar sail:

- a) Nid oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y gorchymyn neu'r amrywiad, neu i gynnwys gwaharddiadau neu ofynion penodol a osodir gan y gorchymyn (neu gan y gorchymyn fel y cafodd ei amrywio);
- b) Ni chydymffurfiwyd â gofyniad o dan Bennod 2 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, mewn perthynas â'r gorchymyn neu'r amrywiad.